# CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR SAFONAU, 30.09.11

**Yn bresennol:-**

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Keith Greenly-Jones, Margaret Griffith ac Eryl Jones-Williams.

**Aelodau Annibynnol:-** Mr John Pollard (Cadeirydd), Mr Gwilym Ellis-Evans a Mr Sam Soysa.

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:-** Y Cynghorydd David Clay.

**Hefyd yn bresennol:**

Mr Eirwyn Pritchard (Swyddog Ymchwilio ar ran Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru).
Swyddogion Cyngor Gwynedd – Iwan Evans (Dirprwy Swyddog Monitro / Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Siôn Huws (Swyddog Priodoldeb) ac Eirian Roberts (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:-** Mr Malcolm Jones (aelod annibynnol), Mr Geraint Jones (Swyddfa'r Ombwdsmon).

Nodwyd hefyd na fyddai Mr Gwyn Williams (aelod annibynnol) yn bresennol gan fod ganddo fuddiant personol yn yr achos gerbron y Pwyllgor.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Mynegodd y Cynghorwyr Keith Greenly-Jones, Margaret Griffith ac Eryl Jones-Williams fod ganddynt gysylltiad â'r achos gerbron y Pwyllgor drwy fod yn gyd-aelodau yn unig i'r Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones ar Gyngor Gwynedd, ond cadarnhawyd nad oedd hyn yn fuddiant o dan y Côd Ymddygiad.

**2. CYHUDDIAD YN ERBYN Y CYNGHORYDD AERON MALDWYN JONES, CYNGOR GWYNEDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r gwrandawiad a gofynnodd i bawb oedd yn bresennol i gyflwyno'u hunain.

Yna, esboniodd y Cadeirydd natur / fformat y gwrandawiad.

Nododd y Swyddog Priodoldeb y byddai'n cynghori'r Pwyllgor ar agweddau trefniadaethol yn unig gan ei fod yn byw yn agos at y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones ac yn ei adnabod yn yr ardal.

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynglŷn â thoriad honedig o Gôd Ymddygiad Aelodau Cyngor Gwynedd (Y Côd Ymddygiad) gan y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones, a gyfeiriwyd i'r Pwyllgor gan yr Ombwdsmon dan Adran 71(2) Deddf Llywodraeth Leol 2000 am benderfyniad.

Derbyniwyd cwynion gan yr Ombwdsman fod y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones wedi methu cadw at y Côd Ymddygiad drwy ei fod wedi:-

(a) mewn post ar flog dan y teitl "cyng aeron maldwyn jones", dyddiedig 9 Hydref 2009, datganwyd ar gam bod y Cynghorydd Dyfed Edwards, y Prif Weithredwr ac eraill yn hedfan i Gaerdydd am gyfarfod ag Alun Ffred Jones er mwyn cael cyllid pellach i Gyngor Gwynedd, a holodd pam nad oedd modd cynnal y cyfarfod hwn yng Nghaernarfon. Drwy ddatgan bod hwn yn gyfarfod rhwng y Cynghorydd Dyfed Edwards, y Prif Weithredwr ac eraill ag Alun Ffred Jones AC, a allai fod wedi'i gynnal yn lleol, roedd wedi rhoi'r argraff bod y daith yn wariant gwastraffus o arian y pwrs cyhoeddus, roedd y Cynghorydd, yn ei gapasiti swyddogol, wedi ceisio sicrhau anfantais i'r Cynghorydd Dyfed Edwards mewn ffordd amhriodol, yn groes i baragraff 7(a) y Côd Ymddygiad.

(b) yn y post ar y blog ar 9 Hydref 2009, honnodd hefyd fod cost y daith mewn awyren (ddwy ffordd) ar gyfer pob unigolyn yn £120 ac y byddai'n rhaid i'r trethdalwyr dalu am y "sbri" yma yng Nghaerdydd. Ar yr adeg pan osodwyd y post hwn ar y blog, nid oedd y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones yn gwybod faint oedd y gwir gost. Yn ogystal, nid oedd modd cyfiawnhau'r defnydd a wnaeth o'r gair "sbri". Roedd hyn yn feirniadaeth anghywir o'r awdurdod wedi'i mynegi'n gyhoeddus a gellid ystyried hyn yn enghraifft o ddwyn anfri ar yr Awdurdod yn groes i baragraff 6(1)(a) y Côd Ymddygiad.

(c) Mewn blog, dyddiedig 24 Chwefror 2010, nodwyd "Bydd Dyfed wrth gwrs yn hedfan i lawr fel arfer, ar draul trethdalwyr Gwynedd" a chyfeiriwyd at "DYFED AIR-PROFA FO". Er gwaethaf honiad y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones bod y Cynghorydd Dyfed Edwards yn hedfan yn aml, mae'r sylwadau hyn yn rhai difrïol. Drwy wneud y sylwadau hyn yn ei gapasiti swyddogol, ceisiodd y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones sicrhau anfantais i'r Cynghorydd Dyfed Edwards mewn ffordd amhriodol, yn groes i baragraff 7(a) y Côd Ymddygiad.

(i) *Materion Trefniadol Rhagarweiniol*

Ystyriodd y Pwyllgor gyflwyniad gan y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones na ddylai'r Cynghorydd Margaret Griffith eistedd fel aelod o'r Pwyllgor. Y sail i'r cyflwyniad hwnnw oedd y ffaith bod yr achwynydd, y Cynghorydd Dyfed Edwards, yn Arweinydd grŵp Plaid Cymru yng Nghyngor Gwynedd. Felly, fel aelod o Blaid Cymru, roedd gan y Cynghorydd Griffith gysylltiad rhy agos â'r materion i'w penderfynu gan y Pwyllgor ac na ddylai gymryd rhan wrth i'r Pwyllgor ddod i benderfyniad ynghylch y cwynion. Cynghorwyd y Pwyllgor nad oedd y cysylltiad gyfystyr â buddiant personol er dibenion y Côd Ymddygiad. Cynghorwyd y Pwyllgor yn ogystal bod y Rheoliadau sy'n llywodraethu aelodaeth Pwyllgorau Safonau yn caniatáu i aelodau'r Cyngor wrando ar faterion oedd yn ymwneud ag aelodau eraill a bod cysylltiadau grŵp yn anochel mewn strwythur o'r fath. Yn seiliedig ar hynny, nid oedd presenoldeb y Cynghorydd Margaret Griffith ar y Pwyllgor yn arwain at ragfarn amlwg. Atgoffwyd y Pwyllgor o'r angen i ystyried y mater gerbron yn wrthrychol yn seiliedig ar y dystiolaeth ac heb gyfeirio at unrhyw ragdueddiad neu gysylltiadau neu faterion allanol eraill. Penderfynodd y Pwyllgor y gallai fwrw ymlaen i ystyried y cwynion a chynnwys y Cynghorydd Margaret Griffith.

Yn ogystal, gofynnodd y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones i'r Pwyllgor ystyried hyd y cyfnod o amser a oedd wedi mynd heibio rhwng y gŵyn gychwynnol a'r gwrandawiad ei hun. Cyflwynwyd y gŵyn gychwynnol ar 5 Tachwedd 2009, ond ni gwblhawyd adroddiad yr Ombwdsmon hyd nes 28 Mawrth 2011. Ystyriai bod yr oedi wedi rhagfarnu ei allu i amddiffyn yr honiadau gan gyfeirio'n benodol at y ffaith bod aelodau perthnasol o staff yr

Awdurdod, megis Hanna Llŷn, cynorthwyydd y Cynghorydd Dyfed Edwards, wedi gadael cyflogaeth yr Awdurdod ac nad oedd modd iddi hi gyflwyno tystiolaeth. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Ymchwilio bod swyddfa'r Ombwdsmon wedi bod dan bwysau gwaith aruthrol pan gyflwynwyd y gŵyn gychwynnol, ond bod cynnydd mewn adnoddau staff wedi caniatáu i ymchwiliadau, megis yr ymchwiliad i'r gŵyn yn erbyn y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones, fynd rhagddynt. Ystyriodd y Pwyllgor y cyflwyniadau a chasglodd bod natur y dystiolaeth gerbron yn ymwneud yn gyfan gwbl, fwy neu lai, â deunydd ysgrifenedig a deunydd wedi'i gofnodi'n electronig ac nad oeddynt yn ddibynnol ar dystion yn cofio ffeithiau a digwyddiadau i unrhyw raddau arwyddocaol. Felly, casglodd bod modd i'r gwrandawiad barhau ac nad oedd unrhyw risg i'r Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones gael gwrandawiad annheg oherwydd yr oedi. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn bryderus iawn ynghylch yr amser a gymerwyd i ymchwilio i'r mater. Er gwaetha'r eglurhad a gafwyd, gofynnodd y Pwyllgor i swyddfa'r Ombwdsmon gael ei hysbysu bod y Pwyllgor o'r farn bod yr amser a gymerwyd wedi bod yn afresymol ac y dylid osgoi hyn yn y dyfodol.

(ii) *Sefydlu'r Ffeithiau*

Yna, ystyriodd y Pwyllgor pa ffeithiau y cytunwyd arnynt a pha rai nas cytunwyd arnynt. Gwahoddwyd y Swyddog Ymchwilio i gefnogi'r casgliadau ffeithiol yn ei adroddiad. Yna, rhoddwyd cyfle i'r Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones gyflwyno sylwadau i gefnogi ei fersiwn ef o'r ffeithiau. Yn ogystal, rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon gwestiynu ei gilydd.

Yna, ymneilltuodd y Pwyllgor i ystyried ei benderfyniad ar y ffeithiau a wrthodwyd ar dudalennau 15 ac 16 o adroddiad yr Ombwdsmon.

Ar ôl dod i benderfyniad, fe wnaeth y cyfarfod ailymgynnull a chyhoeddodd y Cadeirydd benderfyniad y Pwyllgor ar y ffeithiau, fel a ganlyn:-

Paragraff 48(a) – Nid oes tystiolaeth i brofi fod y Cynghorydd Dyfed Edwards wedi bwriadu cymell aelodau eraill a swyddogion y Cyngor i beidio â mynychu'r cyfarfod gydag Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth, drwy ofyn i'w ysgrifenyddes anfon yr e-bost ar y funud olaf.

Paragraff 49(b) – Nid oes tystiolaeth i brofi fod y Cynghorydd Dyfed Edwards wedi ceisio camarwain, drwy honni bod yn rhaid iddo fod mewn cyfarfod gyda Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Addysg, yn ystod bore 7 Hydref 2009 tra bod y cofnod yn ei ddyddiadur yn dangos bod y cyfarfod hwn i'w gynnal rhwng 4.00pm a 4.15pm.

Paragraff 50(c) – Nid oes tystiolaeth i brofi y cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Gweinidog dros Dreftadaeth mewn ymgais i gael mwy o gyllid i Gyngor Gwynedd.

Paragraff 51(ch) – Er fod y Cynghorydd Dyfed Edwards wedi mynd i fwy nag un cyfarfod yng Nghaerdydd, nid oedd cyfarfod penodol gyda'r Gweinidog dros Dreftadaeth, ac eithrio'r cyfarfod gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ble'r oedd y Gweinidog dros Dreftadaeth hefyd yn bresennol.

Paragraff 52(d) – Ceir tystiolaeth gadarn bod y cyfeiriad at y gost o hedfan yn £120 y person yn anghywir ac ni ellir cyfiawnhau'r term "sbri" yn yr arena cyhoeddus. Yn ogystal, fe wnaeth y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones gyfaddef heddiw bod y ffigwr yn anghywir ac na ddylai fod wedi defnyddio'r term "sbri" ac fe ymddiheurodd am hyn.

Paragraff 53(e) – Nid oes tystiolaeth i brofi cywirdeb y datganiad "Bydd Dyfed wrth gwrs yn hedfan i lawr fel arfer ar draul y trethdalwyr" yng nghofnod blog y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones dyddiedig 24 Chwefror 2010.

(iii) *A wnaeth yr aelod dorri'r côd?*

Yna, ystyriodd y Pwyllgor, ar sail y ffeithiau, a wnaeth y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones dorri'r Côd Ymddygiad.

Gwahoddwyd sylwadau gan y Swyddog Ymchwilio a'r Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones.

Cyfeiriodd y Swyddog Ymchwilio ymhellach i gynnwys y ddau flog.

Ni wnaeth y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones unrhyw sylwadau pellach.

Yna, ymneilltuodd y Pwyllgor i ystyried ei benderfyniad.

Ar ôl dod i benderfyniad, fe wnaeth y cyfarfod ailymgynnull a chyhoeddodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi penderfynu bod y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones wedi methu â chydymffurfio â'r Côd Ymarfer fel a ganlyn:-

(a) Darganfu'r Pwyllgor bod ymddygiad y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones mewn perthynas â chwyn 2(a) yn torri paragraff 7(a) y Côd Ymddygiad.

Roedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor fel a ganlyn:-

Darganfuwyd mai seminar a drefnwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn trafod y problemau a wynebai Dreftadaeth, y Celfyddydau a Thwristiaeth yn y dyfodol oedd y cyfarfod ar 8 Hydref 2009. Roedd y Gweinidog dros Dreftadaeth yn bresennol yn y seminar, ynghyd â nifer o siaradwyr gwadd, cynghorwyr ac uwch swyddogion o Gymru ben baladr. Cadeirydd y seminar oedd y Cynghorydd Dyfed Edwards. Roedd y disgrifiad a gafwyd yn y blog o natur y cyfarfod yn ffeithiol anghywir. Nid oedd y Prif Weithredwr nac aelodau a swyddogion eraill yn bresennol yn y seminar ac ni fyddai wedi medru cael ei chynnal yn Nghaernarfon fel yr awgrymwyd yn y blog.

Yn ogystal, canfu'r Pwyllgor nad oedd sail i'r honiadau bod y Cynghorydd Dyfed Edwards wedi ceisio perswadio uwch swyddogion ac aelodau i beidio â mynychu drwy gylchredeg gwahoddiad i'r cyfarfod ar y funud olaf. Ymhellach, canfu nad oedd y Cynghorydd Dyfed Edwards wedi ceisio â chamarwain yr ymchwiliad drwy awgrymu bod cyfarfod gyda Jane Hutt, y Gweinidog dros Addysg wedi'i gynnal yn ystod y prynhawn ar 7 Hydref, yn hytrach nag yn y bore. Roedd y cyfarfod wedi'i newid o ganlyniad i dywydd garw'n amharu ar deithiau awyren ar y diwrnod.

Er iddo gael ei hysbysu o'r anghywirdebau hyn yn gynnar gan Swyddog Monitro'r Cyngor; ar ddyddiad y gwrandawiad, nid oedd y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones wedi llwyddo i ddileu'r rhan fwyaf o'r postiad. Roedd yr honiadau a wnaed gan y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones, yn ei gapasiti fel aelod o'r Cyngor, ynghylch natur y cyfarfod, y mynychwyr ac ymddygiad y Cynghorydd Dyfed Edwards yn anghywir. Canfu'r Pwyllgor y gwnaed y sylwadau yn amhriodol a'u bod wedi'u dylunio i greu anfantais i'r Cynghorydd Dyfed Edwards drwy geisio rhoi'r argraff ei fod yn gwastraffu arian cyhoeddus.

(b) Darganfu'r Pwyllgor bod ymddygiad y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones mewn perthynas â chwyn 2(b) yn torri paragraff 61(1)(a) y Côd Ymddygiad. Canfu'r Pwyllgor bod honiad y Cynghorydd bod cost y daith mewn awyren (ddwy ffordd) yn £120 y pen, yn anghywir. Yn ogystal, canfu'r Pwyllgor nad oedd modd ystyried yn

gyfreithiol y cyfarfodydd a fynychwyd gan y Cynghorydd Edwards rhwng 7 ac 8 Hydref 2009 fel "sbri". Roedd y sylwadau, a honnai eu bod yn cyfeirio at Arweinydd y Cyngor, y Prif Weithredwr a swyddogion ac aelodau eraill amhenodol yn sarhaus a gallent fod wedi dwyn anfri ar yr awdurdod drwy honni bod adnoddau cyhoeddus yn cael eu gwastraffu ar siwrnai gwag nad oedd ag unrhyw beth i'w wneud ag ymgymryd â busnes cyfreithlon y Cyngor. Roedd hyn yn feirniadaeth anghywir o'r awdurdod wedi'i mynegi'n gyhoeddus a gellid ystyried hyn yn enghraifft o ddwyn anfri ar yr Awdurdod yn groes i baragraff 6(1)(a) y Côd Ymddygiad.

(c) Canfu'r Pwyllgor bod ymddygiad y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones mewn perthynas â chwyn 2(c) gyfystyr â thorri paragraff 7(a) y Côd.

Roedd y Pwyllgor yn ystyriol o'r ffaith bod dadl gyfreithiol i'w chael ynghylch materion yn ymwneud â gwerth am arian gyda threfniadau teithio. Fodd bynnag, ystyriai bod y sylwadau "Bydd Dyfed wrth gwrs yn hedfan i lawr fel arfer, ar draul trethdalwyr Gwynedd" a'r cyfeiriad "DYFED AIR – PROFA FO" yn rhai sarhaus. Awgrymai'r sylwadau bod y Cynghorydd Edwards yn hedfan yn aml a diangen i Gaerdydd ar gost y trethdalwyr. Fodd bynnag, ni chyflwynodd y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones unrhyw dystiolaeth bod modd cyfiawnhau'r fath sylwadau. Roedd natur y sylwadau yn y blog yn sarhaus ac wedi'u dylunio i greu anfantais i'r Cynghorydd Dyfed Edwards drwy geisio rhoi'r argraff ei fod yn gwastraffu arian cyhoeddus.

(iv) <u>*Pa gamau i'w cymryd*</u>

Yna, ystyriodd y Pwyllgor pa gamau i'w cymryd.

Gwahoddwyd sylwadau gan y Swyddog Ymchwilio a'r Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones ynghylch a ddylid rhoi cosb ac, os felly, pa fath o gosb fyddai'n addas.

Mynegodd y ddwy ochr y farn mai mater i'r Pwyllgor benderfynu arno oedd hyn, fodd bynnag, cyfeiriodd y Swyddog Ymchwilio at Ganllawiau Cosbi Panel Dyfarnu Cymru.

Yna, ymneilltuodd y Pwyllgor i ystyried ei benderfyniad.

Ar ôl dod i benderfyniad, fe wnaeth y cyfarfod ailymgynnull a chyhoeddodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi penderfynu y dylid gwahardd y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones rhag bod yn aelod o Gyngor Gwynedd am gyfnod o fis.

Byddai cyfnod y gwaharddiad yn dechrau ddiwrnod ar ôl i'r amser a ganiateid i gyflwyno rhybudd o apêl ddod i ben, fel y nodir isod.

Yn ogystal, penderfynodd y Pwyllgor:-

(a) Y dylai'r Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol ar y Côd Ymddygiad

(b) Y dylid dileu rhannau perthnasol y blog ar unwaith

(c) Y dylai'r Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones ymddiheuro i'r Cynghorydd Dyfed Edwards am y sylwadau yn y blog.

Cyhoeddodd y Cadeirydd y gallai'r Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau i dribiwnlys apeliadau a dynnwyd o Banel Dyfarnu

Cymru. Byddai rhaid cyflwyno apêl drwy anfon rhybudd ysgrifenedig at Lywydd y Panel Dyfarnu o fewn 21 diwrnod o dderbyn y rhybudd o benderfyniad. Byddai rhaid i'r rhybudd apêl nodi'r rhesymau dros apelio a hefyd p'un a yw'r aelod yn cydsynio i'r apêl gael ei gynnal drwy sylwadau ysgrifenedig. Anfonir adroddiad ar ddeilliant yr ymchwiliad hwn at y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones, yr achwynydd, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Swyddog Monitro yn unol â Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (fel y'i diwygiwyd).

Diolchodd y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones i'r Pwyllgor am wrandawiad teg a diolchodd i'r Swyddog Ymchwilio a phawb oedd yn bresennol am eu hamser.

Dechreuodd y cyfarfod am 9.30am a daeth i ben am 3.20pm.